Senedd Cymru
Welsh Parliament

# Cyfraith 20mya

22 Ionawr 2024

**Cais am wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 3 Ionawr, pan wnaethoch ofyn:

> *Under the Freedom of Information provisions I require the following information.*
>
> *For all current Senedd Ministers, including the first Minister Mr. M Drakeford*
>
> *1. The number of votes cast for each Minister in the last Senedd elections.*
>
> *2. For the petition entitled "We want the Welsh Government to rescind and remove the disastrous 20mph law", the number of signatures registered so far, for each of the Senedd Ministers' constituencies.*

Gweler ein hymateb isod:

> *1. The number of votes cast for each Minister in the last Senedd elections.*

I ganfod pwy sy'n Weinidog ar hyn o bryd, dilynwch y linc hwn i'n **gwefan**.

I weld canlyniadau'r etholiad, dilynwch y linc hwn i **ganlyniadau'r etholiad (senedd.cymru)**

Gan fod y wybodaeth hon ar gael ar ein gwefan, mae eich cais yn ddarostyngedig i adran 21 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, sy'n eithrio gwybodaeth sydd eisoes ar gael yn rhesymol mewn ffyrdd eraill.

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd, CF99 1SN

Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff, CF99 1SN
Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru
Information-request@senedd.wales

*2. For the petition entitled "We want the Welsh Government to rescind and remove the disastrous 20mph law", the number of signatures registered so far, for each of the Senedd Ministers' constituencies.*

Mae gwybodaeth am y ddeiseb ar gael ar ein gwefan - **Deisebau - Senedd**. Mae'r linc yn eich galluogi i hidlo sut y gellir gweld llofnodion, yn ôl: etholaeth, rhanbarth neu wlad (ochr dde'r dudalen).

Gan fod y wybodaeth hon ar gael eisoes, mae eich cais yn ddarostyngedig i adran 21 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, sy'n eithrio gwybodaeth sydd eisoes ar gael yn rhesymol mewn ffyrdd eraill.

Yn gywir

**Buddug Saer**
**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Senedd Cymru**

Mae eich cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y **Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth**. Mae croeso ichi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymateb hwn.  Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dylech ddilyn y canllawiau isod.

A oes gennych achos i bryderu neu i gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae Senedd Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol cyn pen 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ymateb hwn.  Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ganlyn:

**ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru** neu'n ysgrifenedig i

Senedd Cymru
Llywodraethu a Sicrwydd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF